



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

ICONS & ALLIES IS A CELEBRATION OF TWENTY INSPIRATIONAL PEOPLE FROM OUR WELSH PAST. ALL OF THEM, WHETHER LGBT+ OR NOT, HAVE CONTRIBUTED SIGNIFICANTLY TO OUR HISTORY AND TO OUR VISIBILITY.

Every minority community needs icons to show us how to be our authentic selves in what can be a hostile world. Every community also needs allies to work with us and show that we are part of the wider world. This is a small number of the many who have helped LGBT people in Wales and the wider world to become ourselves and to be proud of our achievements.

These posters were created by Pride Cymru as part of LGBT History Month and funded by the Heritage Lottery Fund. The people in them were nominated by members of the community. The stories on the posters here are the tip of the iceberg and we encourage you to learn more about them, online or in the library.

DATHLIAD YW EICONAU A CHYNGHREIRIAID O UGAIN O BOBL Â'U LLE MEWN HANES SY'N YSBRYDOLIAETH I'R GENEDL. CYFRANNODD POB UN, BOED YN LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL, TRAWSRYWIOL (AC ERAILL) NEU BEIDIO, YN SYLWEDDOL AT EIN HANES A'N GWELEDEDD.

Mae ar bob cymuned leiafrifol angen eiconau a chynghreiriaid – eiconau i ddangos inni sut i fod yn ni ein hunain mewn byd a all fod yn anodd, cynghreiriaid yn gydweithwyr inni i amlygu ein lle teilwng yn y byd. Cipolwg sydd yma ar y llawer a estynnodd gymorth i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol Cymru i feddiannu ein hunaniaeth ac ymfalchïo yn ein campau.

Crewyd y posteri hyn gan Falchder Cymru yn rhan o Fis Hanes Lesbiaid, Hoywon, Deurywolion a Thrawsrywolion ac ariannwyd hwy gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Aelodau o'r gymuned a enwebodd yr unigolion ar y posteri. Ychydig bach o'u storïau sydd yma a thalwch ichi fynd ar-lein neu i'ch llyfrgell leol i gael gwybod rhagor.


THIS EXHIBITION IS SUPPORTED BY / ARIANNWYD YR ARDDANGOSFA HON GAN:



ANGUS McBEAN (1904-1990)

CELEBRATED PORTRAIT PHOTOGRAPHER

Nominated by Jon Pountney, Photographer



More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



PRIDE
CYMRU

Funded and supported by:



Angus McBean of Newbridge, Monmouthshire became one of the most significant portrait photographers of the 20th century. He was known for his surrealist compositions and celebrity shots. In 1942 his career was temporarily ruined when he was arrested in Bath for “criminal acts of homosexuality”. Sentenced to four years in prison, he was released in the autumn of 1944. After the Second World War McBean resumed his successful career and became internationally famous. He was the official photographer for several major theatres and opera houses and later photographed album covers for people such as The Beatles.



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

FFOTOGRAFFYDD PORTREAD

Enwebwyd gan Jon Pountney, ffotograffydd

Hanai o Drecelyn, Sir Fynwy ac ef oedd un o ffotograffwyr portread enwocaf yr 20fed ganrif. Lluniai gyfansoddiadau swrrealaidd a thynnai ffotos o enwogion. Yn 1942 ataliwyd ei yrfa lwyddiannus pan arestiwyd ef yng Nghaerfaddon am “droseddau gwrywgydiol”. Dedfrydwyd ef i garchar a'i ryddhau yn hydref 1944. Wedyn ailafaelodd yn ei yrfa ac ennill enw da rhyngwladol am ei waith. Ef oedd ffotograffydd swyddogol sawl theatr a thŷ opera. Tynnodd hefyd luniau i gloriau albwm grwpiau megis y Beatles.



Angus McBean Christmas Card.

DAI DONOVAN (b. 1947)

MINER AND LIAISON TO LESBIANS & GAYS SUPPORT THE MINERS

Nominated by Andrew White, Stonewall Cymru



More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



In 1984 Dai represented the Neath, Swansea and Dulais Valley Miners Support Group. He met members of Lesbians & Gays Support the Miners, a fundraising campaign from London who adopted the Support Group and often visited, staying with families of the miners. Despite tabloid ridicule and the threat of homophobia the two groups accepted and learnt from each other. After the strike ended in defeat for the miners the National Union of Mineworkers remembered this support. They were instrumental in ensuring that LGBT rights were included in the Labour Party manifesto and became part of mainstream political and working life.



GLÖWR A CHYDGYSYLLTYDD Â GRŴP LESBIAID A HOYWON YN CEFNOGI'R GLOWYR

Enwebwyd gan Andrew White, Stonewall Cymru

Ym 1984 cynrychiolodd Grŵp Cefnogi Glowyr Cymoedd Nedd, Abertawe a Dulais. Cyfarfu ag aelodau o Lesbiaid a Hoywon yn Cefnogi'r Glowyr o Lundain a godai arian i'r glowyr ac a ddewisodd fabwysiadu Grŵp Cefnogi Dai. Ymwelai grŵp Llundain yn aml â De Cymru, gan aros gyda theuluoedd y glowyr. Er gwaethaf gelyniaeth homoffobaidd y papurau newydd, derbyniodd y ddau grŵp ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Ar ôl methiant y streic, cofiodd Undeb Cenedlaethol y Glowyr gefnogaeth y lesbiaid a'r hoywon. Yr Undeb oedd y prif sbardun yn yr ymgyrch i gynnwys hawliau lesbiaid, hoywon, deurywoliau a thrawsrywoliau ym manifesto'r Blaid Lafur, hawliau a fyddai'n rhan anhepgor o fyd gwaith a gwleidyddiaeth.



ELEANOR BUTLER (1739-1829) & SARAH PONSONBY (1755-1832)

THE FAMOUS “LADIES OF LLANGOLLEN” WHO FLED
MARRIAGES TO BE TOGETHER

Nominated by Hannah Blythyn AM



Eleanor and Sarah were runaways from arranged marriages in Ireland. Despite attempts by their families to prevent them, they set up home together. Known as “The Ladies of Llangollen”, they became celebrities for their devotion to each other. Their reputation drew famous and influential people such as the Duke of Wellington and William Wordsworth to visit them. They lived together for over fifty years and their house is now a museum. Gillian Clarke, National Poet of Wales, was inspired by the Ladies to dedicate the first poem in the world to a country’s LGBT community.

More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk




Funded and supported by:



“LADIES OF LLANGOLLEN” A FFODD RHAG PRIODI I
FOD GYDA’I GILYDD

Enwebwyd gan Hannah Blythyn AC

Ffoaduriaid rhag y priodasau a drefnwyd ar eu cyfer yn Iwerddon oedd Eleanor a Sarah. Er gwaethaf ymdrechion eu teuluoedd i’w hatal, sefydlodd y ddwy gartref gyda’i gilydd. Aethant yn enwog am eu hymlyniad cariadus at ei gilydd. Lledwyd eu henwogrwydd a daeth pwysigion o fri i’w gweld megis Dug Wellington a William Wordsworth. Buont yn cyd-fyw am dros hanner can mlynedd. Erbyn hyn mae eu cartref yn amgueddfa i’w bywyd ar y cyd. Ysbrydolwyd Gillian Clarke, Bardd Cenedlaethol Cymru, gan y Merched i gyflwyno cerdd yn unswydd i gymuned lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol y wlad - y bardd cenedlaethol cyntaf yn y byd i’w wneud.




Plas Newydd, the Ladies’ home.

GLORIA JENKINS (1937-2023)

FOUNDER OF FFLAG AND STONEWALL IN WALES

Nominated by Derek Walker, Wales Co-operative Centre



In 2001 Gloria founded the Welsh chapter of Fflag (Families and Friends of LGBT people) and later became one of the first co-chairs of Stonewall Cymru. Gloria ensured that Stonewall put down firm foundations, becoming a cornerstone of Welsh LGBT life and rights. Supported by her family and their Cardiff MP Rhodri Morgan, Gloria campaigned for her daughter Sian's Canadian partner to be able to stay with her in the UK. In August 2000 Tammy was one of the first lesbians from overseas to be granted indefinite leave to remain in the UK because of 'a meaningful same-sex relationship'.

More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



SEFYDLYDD FFLAG A STONEWALL YNG NGHYMRU

Enwebwyd gan Derek Walker, Canolfan Cydweithredu Cymru

Yn 2001 sefydlodd gangen Cymru o Fflag (Teuluoedd a Chyfeillion Lesbiaid, Hoywon, Deurywolion a Thrawsrywolion) ac wedyn aeth yn un o gyd-gadeiryddion cyntaf Stonewall Cymru. Sicrhodd fod gan Stonewall seiliau cadarn i fynd yn un o gonglfeini bywyd a brwydr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yng Nghymru. Deuai partner ei merch o Ganada a chyda chefnogaeth ei Aelod Seneddol lleol, Rhodri Morgan, ymgyrchodd Gloria dros hawl y partner i gael aros ym Mhrydain. Yn Awst 2000 roedd y partner, Tammy, yn un o'r lesbiaid cyntaf o dramor i gael caniatâd i aros yma'n barhaol oherwydd ei bod mewn 'perthynas ystyrlon rhwng pobl o'r un rhyw'.



Tammy, Gloria, Sally and Sian.

GORONWY REES (1909-1979)

KEY MEMBER OF WOLFENDEN REPORT COMMITTEE

Nominated by Lisa Power



More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



Beginning as a journalist, Rees worked for a while for MI6. He was closely involved with the 1950s spy scandals. As principal of Aberystwyth University, he joined the Government's Committee on Homosexual Offences and Prostitution in 1954. The resulting (and highly controversial) "Wolfenden Report" laid the foundations for the later 1967 Sexual Offences Act. This partially decriminalised male homosexuality for the first time in England and Wales. Goronwy was described as "by far the most lateral thinking and perceptive member of the committee". He argued successfully that they should take evidence directly from homosexual men.




AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

AELOD ALLWEDDOL O BWYLLGOR ADRODDIAD WOLFENDEN

Enwebwyd gan Lisa Power


Gweithiai'n newyddiadurwr ac am ychydig i MI6. Roedd ynghlwm wrth y sgandalau ysbïo yn y 50au. Ac yntau'n brifathro Prifysgol Aberystwyth, ymunodd â phwyllgor y Llywodraeth am Droseddau Gwrywgydiol a Phuteindra ym 1954. Adroddiad dadleuol Wolfenden oedd y canlyniad a oedd yn sail Deddf Troseddau Rhywiol 1967 a ddaeth wedyn. Cyfreithlonodd y Ddeddf wrywgydiaeth (i ryw raddau) am y tro cyntaf erioed yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl rhai, Goronwy oedd "yr aelod mwyaf hirben a chraff o'r pwyllgor". Bu'n dadlau'n llwyddiannus dros glywed tystiolaeth oddi wrth hoywon eu hunain.



GRIFF VAUGHAN WILLIAMS (1940-2010)

GAY RIGHTS CAMPAIGNER AND JOURNALIST

Nominated by Kathryn Jarrett,
Visible SMT, Safer Merthyr Tydfil



Born in Bangor, Griff worked as a journalist but was a campaigner for gay rights all his life. Starting as an office volunteer with the Homosexual Law Reform Society, he was on the Executive of the Campaign for Homosexual Equality (CHE) for over 35 years in one role or another.

He led a successful campaign for unions to boycott Scarborough as a conference destination after the town refused repeatedly to host gay ones. He later did groundbreaking work with London's Metropolitan Police to improve relations with the gay community.

More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

YMGYRCHYDD HAWLIAU HOYW A NEWYDDIADURWR

Enwebwyd gan Kathryn Jarrett, Gweladwy, Merthyr
Tudful Ddiogelach


Ganed Griff ym Mangor ac aeth yn newyddiadurwr. Ond ymgyrchu dros hawliau hoyw oedd ei wir waith. Bu'n gwirfoddoli gyda Chymdeithas Diwygio'r Gyfraith ar Wrywgydiaeth am dros 35 mlynedd. Arweiniodd ymgyrch lwyddiannus i gael undebau i foicotio Scarborough yn gyrchfan cynadledda ar ôl i'r dref wrthod cynadleddau hoyw yno. Gwnaeth waith arloesol gyda Heddlu Llundain i wella cysylltiadau â'r gymuned hoyw. Eiconau a Chynghreiriaid.



HUGH DESPENSER (1286-1326)

A KING'S FAVOURITE AND LORD OF GLAMORGAN

Nominated by Eve Limbrick, Pride Cymru Youth Council



Hugh Despenser the Younger married Eleanor de Clare in 1306 and through her became Lord of Glamorgan and owner of Cardiff Castle.

It is widely accepted that he and Edward II were lovers. Despenser's influence over the king was described as "tyranny" and when the King was deposed, Hugh was also arrested and charged with treason and interfering in the royal marriage. He was hanged, castrated, drawn, and quartered.

He left 9 children and among his famous descendants are Catherine Parr, wife of Henry VIII, and former U.S. President George W. Bush.

**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

FFEFRYN Y BRENIN AC ARGLWYDD MORGANNWG

**Enwebwyd gan Eve Limbrick,
Cyngor Ieuenctid Balchder Cymru**


Priododd Hugh ag Eleanor de Clare ym 1306 a thrwyddi daeth yn Arglwydd Morgannwg a pherchennog Castell Caerdydd. Cred llawer fod Hugh ac Edward II yn gariadon. Cwynwyd am ddylanwad mawr Hugh ar y brenin a phan ddiorseddwyd y brenin, cafodd Hugh ei hun ei arestio ar gyhuddiad o deyrnfradwriaeth ac ymyrryd â'r briodas frenhinol. Cafodd ei grogi, ei ysbaddu, ei ddiberfeddu a'i chwarteru. Gadawodd 9 o blant ac ymhlith ei ddisgynyddion enwog mae Catherine Parr, gwraig Harri'r Wythfed a chyn-lywydd America, George W. Bush.



ILLTYD HARRINGTON (1931-2015)

“THE BEST MAYOR LONDON NEVER HAD”

Nominated by Professor Helen Graham,
Royal Holloway University of London



A bear-like man and highly charismatic speaker from Merthyr Tydfil, Illtyd came from a radical, anti-fascist family with strong politics. After teacher training, he left for London like many young gay men of that time. He rose through Labour Party politics to become Deputy Leader and Chairman of the Greater London Council during its 1980s confrontations with the Thatcher Government. He was a primary mover in their creative arts policies and responsible for creating free travel for the elderly and the Peace Pagoda in Battersea Park. Even before decriminalisation, he lived openly with his partner of 30 years, Chris Downes.

More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

“MAER GORAU LLUNDAIN NA FU ERIOED”

Enwebwyd gan yr Athro Helen Graham,
Prifysgol Frenhinol Holloway yn Llundain

Arth o ddyn ac areithiwr swynol o Ferthyr Tydfil a ddaeth o deulu radicalaidd a gwrth-ffasgaidd. Ar ôl hyfforddi'n athro, aeth i Lundain megis sawl dyn hoyw ifanc yr adeg honno. Cododd drwy rengoedd y Blaid Lafur i fod yn Ddirprwy Arweinydd a Chadeirydd Cyngor Llundain Fwyaf yn ystod ei ffrwgwd yn yr 80au gyda Llywodraeth Thatcher. Roedd yn brif ddylanwad ar bolisïau celfyddydol y Cyngor ac ef oedd yn gyfrifol am wneud teithio i bobl hŷn yn rhad ac am ddim ac am greu Pagoda Heddwch Parc Battersea. Cyn i hoywder gael ei gyfreithloni, bu'n byw'n agored gyda'i bartner o 30 mlynedd, Chris Downes.



Photograph: Dempsie/ANL/Rex

IVOR NOVELLO (1893-1951)

COMPOSER, SINGER AND ACTOR

Nominated by Peggy Palmer



Born David Ivor Davies in Cardiff, this composer, singer and actor was one of the most popular British entertainers of the early 20th century. He wrote the popular wartime song *Keep the Home Fires Burning* and starred in his own musicals throughout the 1930s and 40s, including *Glamorous Night*, *King's Rhapsody*, and *Gay's the Word*. He also starred in Hitchcock's *The Lodger*, an early hit for the director.

His partner of over 30 years was actor Bobbie Andrews. Called "*The Last Great Romantic*", the prestigious Ivor Novello Awards for British songwriting still commemorate him.

**More information /
Mwy o wybodaeth:**
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

CYFANSODDWR, CANWR AC ACTOR

Enwebwyd gan Peggy Palmer


David Ivor Davies ydoedd yn wreiddiol a ganed ef yng Nghaerdydd. Roedd yn gyfansoddwr ac actor o fri yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf. Adeg y rhyfel, ysgrifennodd y gân enwog, *Keep the Home Fires Burning*. Serennodd hefyd yn ei sioeau cerdd ei hun drwy'r 30au a'r 40au gan gynnwys *Glamorous Night*, *King's Rhapsody* a *Gay's the Word*. Chwaraeodd brif ran film Hitchcock, *The Lodger*. Yr actor Bobbie Andrews oedd partner Ivor am dros 30 mlynedd. Gelwid ef "*Y Rhamantwr Mawr Olaf*" ac mae gwobrwyon Ivor Novello am ysgrifennu caneuon yn deyrnged o hyd iddo.



JAN MORRIS (1926-2020)

**WELSH REPUBLICAN, TRAVEL WRITER
AND ESSAYIST**

Nominated by Grant Vidgen, Iris Prize



**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:



Born to a Welsh family in Somerset, England, Jan grew to be a passionate Welsh Republican, member of the Gorsedd of Bards, writer, historian and essayist. She underwent sex reassignment surgery in 1972 and her book about it, *Conundrum*, brought far greater public understanding of trans issues. Legislation at that time meant that Jan and her partner had to divorce and later gain a civil partnership but they never separated. Internationally acclaimed for her travel writing and reporting, Jan also ensured that the news of the British-led conquest of Everest reached the Queen the day before her coronation.



**AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS**

**GWERINIAETHWR CYMREIG, AWDUR LLYFRAU
TEITHIO AC YSGRIFAU**

Enwebwyd gan Grant Vidgen, Gwobr Iris

Ganed yng Ngwlad yr Haf i deulu o Gymru ac aeth yn weriniaethwr Cymreig angerddol ac aelod o Orsedd y Beirdd, awdur, hanesydd ac awdur ysgrifau. Cafodd lawdriniaeth i newid ei rhywedd ym 1972 ac roedd ei llyfr am y profiad, *Conundrum*, yn fodd i greu dealltwriaeth fwy o faterion trawsrywiol. Yn ôl deddfwriaeth yr oes honno, roedd yn rhaid i Jan a'i phartner ysgaru ac wedyn cawsant bartneriaeth sifil ond ni fuont ar wahân ar unrhyw adeg. Mae Jan yn enwog yn rhyngwladol am ei hysgrifennu taith a'i newyddiaduraeth. Hi oedd aelod o dîm Prydain i ddringo Everest gan sicrhau bod y Frenhines wedi clywed y newyddion am ei lwyddiant y diwrnod cyn ei chori.



Photograph: Cork City Libraries.

JOHN DAVIES (1938-2015)

**CELEBRATED WELSH HISTORIAN
AND AWARD WINNING WRITER**

Nominated by Berwyn Rowlands, Iris Prize



Responsible for the greatest book of Welsh history ever written (Hanes Cymru, 1990; A History of Wales, 1993, Penguin), John Davies was a lifelong Plaid supporter and Welsh language campaigner. Happily married with four children, in later life he came out as bisexual as a challenge to what he saw as homophobia in Welsh public life. After teaching Welsh history at the University of Wales, Aberystwyth, he retired to Cardiff and appeared frequently as a presenter and contributor to history programmes on television and radio. In 2005, Davies received the Glyndwr Award for his Outstanding Contribution to the Arts in Wales.

**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:




AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

HANESYDD AC AWDUR

Enwebwyd gan Berwyn Rowlands, Gwobr Iris


John Davies (neu John Bwlch-Ilan fel yr adweinid ef) oedd awdur y gyfrol orau erioed am hanes Cymru (Hanes Cymru, 1990, Penguin). Roedd yn gefnogwr brwd o'r Blaid ac ymgyrchydd iaith dyfal er Pont Trefechan. Roedd yn briod gyda phedwar o blant. Ac yntau'n hŷn, daeth allan yn ddeurywiol i herio'r homoffobia a welodd yn y bywyd cyhoeddus Cymraeg. Bu'n dysgu hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn ymddeol i Gaerdydd gan ymddangos yn aml yn trafod hanes ar y teledu a radio. Yn 2005 cafodd Wobr Glyn-dŵr am Gyfraniad Eithriadol i Gelfyddydau Cymru.



JOHN RANDELL (1918-1982)

FOUNDER OF FIRST UK GENDER IDENTITY CLINIC

Nominated by Alex Drummond, Counsellor



**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

**SEFYDLYDD Y CLINIG HUNANIAETH RYWEDDOL
CYNTAF YM MHRYDAIN**

Enwebwyd gan Alex Drummond, therapydd

Ganed John ym Mhenarth ac aeth yn feddyg ym 1941. Ym 1950 cafodd ei benodi'n Uwch Seiciatrydd yn Ysbyty Croes Charing. Astudiodd rywioldeb ac ym 1966 sefydlodd y Clinig Hunaniaeth Ryweddol cyntaf ym Mhrydain. Bu hefyd yn gymorth wrth drefnu'r Symposiwm Rhyngwladol cyntaf am Hunaniaeth Ryweddol. Ym maes llawdriniaeth drawsrywiol ym Mhrydain, John oedd y llawfeddyg enwocaf. Am dros 40 mlynedd aeth pob trawsrywolyn i'w glinig yn Llundain. Mae'r sefyllfa hon yn wir o hyd i bobl Cymru er y gwneir camau i sefydlu clinig yma.



KATHERINE PHILIPS (1632-1664)

PLAYWRIGHT, LESBIAN POET AND ROYALIST

Nominated by Cath Harrison, Pride Cymru



One of the first British women to acquire fame as a writer, Katherine moved from London to Pembrokeshire at 14. On marrying James Philips she moved to Cardigan Priory. Katherine is now regarded as the first significant female British poet as well as the first woman to have a commercial play staged.

Her poetry often concerned her love for her female friends and they are the first British poems which express same-sex love between women. She had two great loves in her life, Mary Aubrey and Anne Owen. She died in the arms of Mary, aged just 32 years old.

**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**




Funded and supported by:



DRAMODYDD, BARDD A BRENHINWR LESBIAIDD

Enwebwyd gan Cath Harrison, Balchder Cymru


Roedd un o fenywod cyntaf Prydain i fynd yn awdur enwog. Aeth o sir Benfro i fyw yn Llundain pan oedd yn 14 oed. Priododd â James Philips a symudodd i Briordy Aberteifi. Erbyn hyn ystyrir mai hi yw bardd benywaidd arwyddocaol cyntaf Prydain. Hi hefyd oedd y fenyw gyntaf i gael drama wedi'i llwyfannu'n fasnachol. Ei cherddi yw'r rhai cyntaf ym Mhrydain i drafod cariad un rhyw rhwng menywod. Dau gariad mawr ei bywyd oedd Mary Aubrey ac Anne Owen. Dim ond 32 oed ydoedd pan fu farw a hynny ym mreichiau Mary.



LEO ABSE MP (1917-2008)

**PARLIAMENTARIAN WHO DROVE THE FIRST
UK GAY LAW REFORM**

Nominated by Stephen Doughty MP



**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:




AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

**AELOD SENEDDOL AC ARWEINYDD Y DIWYGIAD
CYNTAF YN Y GYFRAITH I HOYWON**

Enwebwyd gan Stephen Doughty AS


Cyfreithiwr llwyddiannus yng Nghaerdydd ydoedd ac yn Aelod Seneddol dros Lafur am 30 mlynedd. Hoffai fynd i'r afael â phynciau llosg cyfreithiol. Ar ôl gweld yr anghyfiawnder a'r boen a achoswyd i ddynion hoyw gan flacmel, arweiniodd y gad i newid y gyfraith a wellodd agweddau'r gymdeithas tuag at ddynion hoyw yng Nghymru a Lloegr. Ysbrydolwyd ef gan argymhellion yr Adroddiad Wolfenden i fod yn brif bensaer Deddf Troseddau Rhywiol 1967 a wnaeth ryw rhwng dynion (dros eu 21 oed ac mewn lle preifat) yn gyfreithlon.



MARY CHARLOTTE LLOYD (1819-1896)

**PAINTER, SCULPTOR, ANIMAL LOVER
AND SOCIAL CAMPAIGNER**

Nominated by Lu Thomas, Pride Cymru



Mary was a painter and sculptor from Rhagett Hall, Corwen. She travelled to Rome to study with fellow Welsh sculptor John Gibson, where she met social activist and writer Frances Power Cobbe.

Both were non-conformists with feminist ideals. They set up home in London where they fought for the rights of women and animals. They even mortgaged their home to help Battersea Dogs Home in a financial crisis.

Retiring back to Wales to live together at Dolgellau, Mary died in 1896 and Frances, 'lonely beyond words' without her, died eight years later.

**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:




AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

**ARLUNYDD, CERFLUNYDD, YMGYRCHYDD
CYMDEITHASOL A HOFFAI ANIFEILIAID**

Enwebwyd gan Lu Thomas, Balchder Cymru

Arlunydd a cherflunydd ydoedd o Gorwen. Teithiodd i Rufain i astudio gyda cherflunydd arall o Gymru, John Gibson, lle cyfarfu â'r gweithredydd cymdeithasol a'r awdur, Frances Power Cobbe. Roedd y ddwy'n ffeminyddol a brwydrent yn erbyn hualau cymdeithas. Roedd y ddwy wedi ymgartrefu gyda'i gilydd yn Llundain lle brwydrent dros hawliau menywod ac anifeiliaid. Aethant mor bell â morgeisio eu cartref i helpu Cartref Cŵn Battersea a oedd mewn argyfwng ariannol. Wrth ymddeol, symudodd y ddwy'n ôl i Gymru i fyw gyda'i gilydd yn Nolgellau. Bu farw Mary ym 1896 a hebddi roedd Frances yn 'unig y tu hwnt i ddisgrifiad' gan ddilyn ei Mary i'r bedd wyth mlynedd wedyn.




Llanelltyd Church near Dolgellau, where Mary Charlotte Lloyd and Frances Power Cobbe were both buried.

MICKY BURN (1912-2010)

**BISEXUAL SECOND WORLD WAR HERO,
WRITER AND POET**

Nominated by Andrew Davies, Unity Group Wales



**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

ARWR RHYFEL, BARD D AC AWDUR DEURYWIOL

Enwebwyd gan Andrew Davies, Grŵp Undod Cymru

Daeth o ddosbarth uchaf y gymdeithas ac roedd yn awdur, bardd a chomando yn yr ail ryfel byd. Cymerodd ran yn y cyrch enwog ar Sant Nasair pan ddaliwyd ef a'i garcharu yng Ngholdits. Oherwydd ei wasanaeth eithriadol cafodd y Groes Filwrol. Pan gafodd ei flacmelio am gael rhyw hoyw yn y 50au (pan oedd yn anghyfreithlon), aeth yn syth at yr heddlu a garcharodd y blacmelwyr yn lle ei erlyn ef. Am 23 mlynedd roedd yn briod â Mary Brooker a buont yn byw ym Mhortmeirion lle rheolodd fferm cregyn gleision cydweithredol am gyfnod byr. Trafoda ei lyfr, *Turned Towards the Sun*, ei ddeurywioldeb a'i garwriaeth gyda'r ysbïwr hoyw, Guy Burgess.



Photographs: © Greg Olliver.

SARAH JANE REES (CRANOGWEN) (1839-1916)

SAILOR, BARD AND WRITER

Nominated by Norena Shopland, Historian



Sarah, whose bardic name was Cranogwen, was born at Llangrannog on the West Wales coast. Rejecting a career as a dressmaker and demanding an education when it was unusual for girls, she joined her father on his local merchant ship. Whilst other women also went to sea, what set Cranogwen apart was that she then officially trained to be a captain. She returned to Llangrannog and set up a navigation school. She became the first female editor of a woman's magazine in Wales and a very successful poet and writer. She was supported by her partner Jane Thomas with whom she lived openly.

More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



MORWR, BARD D AC AWDUR

Enwebwyd gan Norena Shopland, hanesydd

Cranogwen oedd enw barddol Sarah a aned yn Llangrannog. Ymwrthododd â bod yn wniadwraig a mynnodd gael addysg pan oedd hyn yn anarferol i ferched. Ymunodd wedyn â'i thad ar ei long fasnach. Aeth menywod eraill ar y môr wrth gwrs, ond roedd Cranogwen yn wahanol am iddi gael ei hyfforddi'n swyddogol yn gapten llong. Sefydlodd ysgol fordwyaeth yn Llangrannog. Hi oedd y golygydd cyntaf o fenyw i gylchgrawn i fenywod Cymru ac aeth yn fardd ac awdur llwyddiannus. Cafodd gefnogaeth gyson gan ei phartner Jane Thomas y bu'n byw'n agored gyda hi.




Sarah's gravestone.

TERRENCE HIGGINS (1945-1982)

THE ACCIDENTAL ICON

Nominated by Joshua Hall, Terrence Higgins Trust



Terry Higgins from Haverfordwest left his hometown for London in the 1970s. A lively character with many friends, he was a Hansard reporter, a barman and a DJ. After periods of undiagnosed illness in 1982 he became one of the first people in the UK known to have died with AIDS. The charity set up by his close friends in his name went on to become Europe's largest HIV non-governmental organisation. A Welshman is thus the symbol of the community activism that, while governments did nothing, began the transformation of HIV from the tabloids' 'gay plague' to today's treatable condition.

More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

YR EICON DAMWEINIOL

Enwebwyd gan Joshua Hall,
Ymddiriedolaeth Terrence Higgins

Un o Hwlfordd oedd Terry a aeth i Lundain yn yr 70au. Roedd yn gymeriad bywiog gyda llawer o gyfeillion. O ran gwaith cofnodai areithiau'r Senedd i'r cofnod swyddogol, gweithiai mewn bar a throellai ddisgiau. Ar ôl cyfnodau o salwch ym 1982, bu farw o AIDS, un o'r bobl gyntaf ym Mhrydain. Sefydlodd ei gyfeillion elusen yn ei enw a oedd y sefydliad anllywodraethol mwyaf ym maes HIV yn Ewrop wedyn. Cymro felly yw symbol y frwydr yn erbyn difaterwch llywodraethau a chasineb y papurau a soniai am 'y pla hoyw'. Erbyn heddiw gellir trin y cyflwr a byw gydag ef.




Photograph: Dylan Lee.

VISCOUNTESS RHONDDA (1883-1958)

SUFFRAGETTE, EDITOR AND BUSINESSWOMAN

Nominated by Chris Bryant MP



Margaret Mackworth was the Newport-raised daughter of a wealthy coal baron ennobled by Lloyd George. Following a brief marriage, she became a suffragette and was imprisoned after attempting to burn the contents of a post-box in Risca Road, Newport.

She campaigned for the right for women to sit in the House of Lords, founded the highly influential leftwing Time and Tide magazine, ran over 30 companies inherited from her father and became the first woman president of the Institute of Directors, all while living openly in lesbian relationships with Helen Archdale and subsequently Theodora Bosanquet.

**More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk**



Funded and supported by:



SWFFRAGÉT, GOLYGYDD A MENYW FUSNES

Enwebwyd gan Chris Bryant AS


Ganed Margaret Mackworth yng Nghasnewydd i feistr glo cyfoethog a wnaed yn is-iarll gan Lloyd George. Ar ôl priodas fer, aeth yn swffragét a charcharwyd hi am geisio llosgi cynnwys blwch post Heol Risga, Casnewydd. Ymgyrchodd dros hawl menywod i eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Sefydlodd y cylchgrawn asgell chwith Time and Tide a bu'n rhedeg dros 30 o gwmnïau a etifeddodd ar ôl ei thad. Hi oedd arlywydd benywaidd cyntaf Sefydliad y Cyfarwyddwyr a hynny tra oedd yn byw'n agored mewn perthynasau lesbiaidd gyda Helen Archdale ac wedyn Theodora Bosanquet.



WENA PARRY (b. 1939)

CHRISTIAN MINISTER AND TRANS LAW REFORM
CAMPAIGNER

Nominated by Madeleine Rees



More information /
Mwy o wybodaeth:
www.pridecymru.co.uk



Funded and supported by:



In 2005 Wena Parry, an evangelical minister from Port Talbot who had transitioned, challenged the Gender Recognition Act in the European Court of Human Rights. Under the Act, she could not get her gender recognition certificate without divorcing her wife Anita - equal marriage did not yet exist. Ms Parry and her wife were clear that they were married in the sight of the Almighty and that divorce would delegitimise their children. Although they lost the case then, it highlighted the unfairness of current laws on people who transitioned but wanted to stay in their existing marriage.



AN EXHIBITION OF WELSH
LGBT+ ROLE MODELS

GWEINIDOG YR EFENGYL AC YMGYRCHYDD DIWYGIO'R GYFRAITH I DRAWSRYWOLION

Enwebwyd gan Madeleine Rees

Yn 2005 heriodd Wena, gweinidog efengylaidd a oedd wedi ymdrawsnewid, y Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn Llys Hawliau Dynol Ewrop. Dan y Ddeddf ni allai gael tystysgrif i gydnabod ei rhywedd heb ysgaru â'i gwraig, Anita (roedd hyn cyn priodas gyfartal i bawb). Roedd y ddwy'n grediniol eu bod yn briod yng ngolwg yr Hollalluog ac y byddai ysgaru'n anghyfreithloni eu plant. Er iddynt golli'r achos, amlygodd annhegwch y gyfraith i drawsrywolion sydd am aros yn eu priodas bresennol.



Wena (as Bill) and Anita on their wedding day.